# Polisi
# Gwaith Cartref

Mai 2024

# Polisi Gwaith Cartref

**Nodau ac Amcanion**

Credwn fod lles disgyblion yn allweddol ac mae ein polisi gwaith cartref yn adlewyrchu cyfnod o fyfyrio ar lesiant disgyblion Ysgol Pencae wrth gwblhau gwaith cartref.
Credwn rhydd gwaith cartref gyfle gwerthfawr i'r dysgwyr ymarfer sgiliau a ddysgwyd yn y dosbarth. Yn ogystal, mae gwaith cartref yn gyswllt pwysig rhwng yr ysgol a'r cartref, gan roi cyfle i rieni rannu yn y broses o addysgu'r plentyn, a chadw mewn cysylltiad gyda'i ddatblygiad.

**Gwaith Cartref yn Ysgol Pencae**

Yn dilyn gofyn am farn rhieni ynglyn â gwaith cartref ym Medi 2022, penderfynwyd i ddiwygio ein arferion a'n hamserlen gwaith cartref. Penderfynodd 50% o'r rheiny a ymatebodd i'r holiadur (110 o deuluoedd) eu bod nhw'n awyddus i waith cartref ysgol Pencae i dargedu y canlynol:

- Cymorth o ran adnoddau darllen i'r disgyblion
- Ymarferion Sillafu
- Mynediad at blatfformau addysgiadol digidol.

Felly aethpwyd ati i greu gwefan arbennig fel platfform Gwaith Cartref. Ceir mynediad at y wefan hon trwy'r ddolen:

Bydd y gwaith cartref yn adlewyrchu gwaith y dosbarth felly ar y platfform Gwaith Cartref, bydd pob dosbarth yn cael mynediad at:

**Llyfrau Darllen**:

Bydd awgrymiadau o ran llyfrau darllen Cymraeg (Derbyn hyd Flwyddyn 6) a Saesneg (Blwyddyn 3 - 6) addas ar gyfer yr oedran. Bydd yr awgrymiadau yma wedi eu haddasu ar lefelau aur, arian ac efydd er mwyn bod yn addas ar gyfer pob darllenydd yn y dosbarth.

**Rhestr o eiriau sillafu y tymor:**
Bydd y rhestr yn targedu y prif batrymau sillafu a fydd yn cael eu targedu yn ystod y tymor (yn unol â map Ffoneg a Sillafu yr ysgol). Bydd yna awgrymiadau o ran gweithgareddau addas i'w gwneud wrth ymarfer y patrymau sillafu yma gyda'r disgyblion. Bydd y gweithgareddau hyn yn cysylltu gyda gweithgareddau sydd yn digwydd yn y dosbarth.

**Dolenni ac awgrymiadau o gemau mathemategol:**
Bydd y dolenni a'r awgrymiadau hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o brif elfennau mathemategol y tymor. Gan amlaf byddan nhw yn targedu medrau rhif y disgyblion.

Anogwn y rhieni i gymryd diddordeb yn y gwaith cartref, gan oruchwylio, hybu a chynnig cymorth yn ôl y galw.

**Llyfrau Darllen Wythnosol:**
Yn ogystal â'r platfform gwaith cartref, bydd y disgyblion yn derbyn llyfr darllen wythnosol gan yr ysgol i'w ymarfer adref gyda'u rhieni / gwarcheidwaid.

Mae dysgu darllen a datblygu i fod yn ddarllenydd annibynnol yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Credwn fod rôl bwysig gan y rhieni yn y broses hon, ac anogwn iddynt ddarllen gyda'u plentyn yn rheolaidd, darllen iddynt a rhannu hwyl llyfrau gan ennyn diddordeb a meithrin mwynhad. Anogir i'r dysgwyr ddarllen rhywfaint bob nos gan ddod yn gynyddol annibynnol erbyn blynyddoedd 5 a 6.

Gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol sydd ar ddechrau'r broses dysgu darllen, byddwn yn rhannu gemau, cardiau geiriau neu lyfrau llafar (llyfrau gyda thâp neu ddolen at lyfr darllen Cymraeg digidol) hyd y byddan nhw yn barod i ddarllen testunau cyfan.

Yn ogystal â chael mynediad at lyfrau darllen cadarn, rydym fel ysgol wedi buddsoddi yng ngwefan Darllen Co. Mae Darllen Co. yn adnodd llyfrau darllen Cymraeg rhyngweithiol ar gyfer plant ysgolion cynradd, athrawon a rhieni ledled Cymru. Mae'r platffrom yn cynnig llwyfan lle gellir darllen a gwrando ar y llyfrau Cymraeg. Mae'r llyfrau hefyd yn caniatáu i ddarllenwyr glicio ar eiriau anghyfarwydd ar gyfer diffiniadau ac ynganiadau.
Mae'r dysgwyr yn defnyddio eu manylion mewngofnodi 'Hwb' er mwyn cael mynediad at y llyfrau. Anogir y disgyblion i ddarllen llyfrau Darllen co gyda'r opsiwn o gael rhywun i ddarllen y llyfr iddynt er mwyn adeiladu hyder wrth ddarllen.

**Tasgau Penodol Achlysurol:**

Yn achlysurol, efallai bydd yr ysgol yn gosod gwaith cartref penodol i'r disgyblion. Yn amlach na pheidio bydd y gweithgareddau hyn yn rai gwirfoddol ac eu pwrpas nhw fydd i roi profiadau i'r

disgyblion neu yn rhoi'r cyfle iddyn nhw gystadlu mewn cystadleuaeth, e.e. cystadlaethau celf a chrefft yr Urdd.

**Rôl yr Ysgol**

- Cynhelir cyfarfod rhieni ar ddechrau tymor yr Hydref i bob dosbarth er mwyn galluogi'r athro dosbarth i rannu gwybodaeth a disgwyliadau y flwyddyn academaidd.
- Sicrhewn bod ein cyfarwyddiadau ynglŷn â'r gwaith cartref yn ddwyieithog.
- Os oes cwestiwn yn codi gydag unrhyw riant ynglŷn â gwaith cartref, yna gallan nhw gysylltu â'r ysgol; bydd aelod o'r staff yn falch o'ch cynorthwyo.

**Rôl y Rhieni/ Gwarcheidwaid**

- Annog y plant i ddarllen yn rheolaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Cymryd diddordeb yn y gwaith cartref, gan oruchwylio, hybu a chynnig cymorth yn ôl y galw.
- Cysylltu â'r ysgol yn ddiymdroi er mwyn trafod unrhyw broblemau neu gonsyrn yn ymwneud â gwaith cartref.
- Ymweld â'r llyfrgell leol yn gyson ac yn rheolaidd er mwyn benthyca llyfrau gan gymryd rhan hefyd os yn bosibl yn Her Llyfrgelloedd Caerdydd yn ystod gwyliau'r Haf.

**Cyfle cyfartal**

Mae'r holl addysgu yn ystyried yr angen i ddarparu cyfle cyfartal i ddysgwyr mewn perthynas â rhyw, hil, crefydd, anghenion y rhai mwy galluog/talentog a'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Adolygiad**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd neu pan fo'n briodol mewn cysylltiad â datblygiadau cyfredol yn lleol a chenedlaethol. Ein nod yw defnyddio Hwb a Google G-Suite yn fwyfwy rhagweithiol tra'n defnyddio gwaith cartref fel cyfrwng cryfau dealltwriaeth, gwybodaeth a medrau'r disgyblion ymhellach.

Mae’r polisi hwn yn unol â chynnwys y ddogfen ‘Gwaith Cartref mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd’ gan Estyn (2004).

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2024

Llofnod y Pennaeth: Siwan Dafydd

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad adolygu: Mai 2027